8. SGOLOR Y GWNINGEN
(Sul y Beiblau)

Mae'n ffaith drist fod rhai anifeiliaid – fel rhai pobl – yn cael trafferthion cyd-dynnu â'u teuluoedd. Dyna'n union sut yr oedd hi ar Sgolor y Gwningen. Ond yn wir i chi, nid arno ef roedd y bai. Gwnaeth ei orau glas i fod yn ffrindiau â'i frodyr, Grymus a Gwyllt yr efeilliaid. Ond gan fod Grymus yn gwningen fawr, gryf, gyhyrog a Gwyllt yn gwningen ddewr, hynod o fentrus roedd y ddau'n ffrindiau pennaf a byddent yn rhoi amser caled iawn i Sgolor gan ei alw'n bob math o enwau cas.

Roedd y tair cwningen yn byw mewn twll ym mhen draw'r lôn. Gan fod Sgolor yn dipyn o freuddwydiwr doedd dim yn well ganddo na threulio'i amser yn gorwedd yn y ffos ar ochr y lôn yn syllu ar yr awyr. Ond roedd un anhawster. Gan fod ei frodyr yn gymaint o fwlis chât o byth bron heddwch i wneud hyn.

Beth bynnag. Un dydd roedd Sgolor yn sboncio o amgylch y lle'n freuddwydiol fel arfer pan sylwodd ar rywbeth diddorol iawn yn gorwedd yn y ffos. Gynted ag y gwelodd ef llamodd ei galon â llawenydd a phrin y medrai aros am gael dychwelyd ag ef i'r twll.

Roedd yn ymdrech galed, ond o'r diwedd cyrhaeddodd yno. Adref o'r diwedd! Yr unig broblem oedd fod yr efeilliaid yn sefyll gerbron mynedfa'r twll.

‘Dyna foryn rhyfedd yr olwg,’ meddai Grymus.

‘Nid moryn ydi o. Ond llyfr. Os gwelwch yn dda ga i fynd heibio?’ gwichiodd Sgolor.

‘Tyrd ag ef yma i mi gael ei flasu.’ Dechreuodd Gwyllt gnoi cornel un o’r dalennau.

‘Na! Na!’ llefodd Sgolor. ‘Nid pethau i’w bwyta yw llyfrau. Eu hagor sydd eisiau ac edrych ar y lluniau. Nawr gadewch i mi basio . . . plîs . . .’

Edrychodd Grymus a Gwyllt ar ei gilydd gan amneidio’u pennau.

Gan gilwenu symudodd y ddau o’r ffordd, tra gwthiodd Sgolor ei hunan a’r llyfr i mewn i’r twll.

Erbyn hyn roedd yn flinedig iawn ond yn llawn cyffro. Chafodd o erioed lyfr iddo’i hun o’r blaen. Â’i wynt yn ei ddwrn, agorodd ef. Ger ei fron yr oedd darlun o arth. Ac wrth iddo syllu arno digwyddodd rhywbeth rhyfeddol. Canfu’r gwningen fach ei bod yn medru deall y symbolau du rhyfedd oddi tano. Roedd yn gwneud synnwyr. Ac yn dweud rhywbeth wrtho. ‘Mae eirth yn beryglus iawn,’ dywedai.

‘Wel myn brain i!’ sibrydodd Sgolor wrtho’i hunan. Yn eiddgar trodd y ddalen a gwelodd lun tsimpansî. ‘Mae Tsimpansîs yn ddeallus iawn,’ darllenodd.

Prin y medrai Sgolor gredu’r hyn a welai. Dros y dudalen roedd llun o eliffant. ‘Eliffantod yw’r mwyaf o’r anifeiliaid,’ darllenodd. Yr oedd y cyfan mor gyffrous erbyn hyn fel na allai gadw’n dawel mwyach. ‘Grymus! Gwyllt! Mae rhywbeth rhyfeddol wedi digwydd!’ bloeddiodd. ‘Dwi’n adnabod geiriau. Mae’r llyfr yn siarad â mi.’

Dyma’r tro cyntaf i Sgolor fod yn drech na’i frodyr. Safai’r ddau yno’n llawn syfrdan, tra eglurai Sgolor yr hyn roedd y llyfr yn ei ddweud am eirth, tsimpansîs ac eliffantod.

‘Onid yw geiriau’n wych?’ disgleiriai llygaid Sgolor. ‘Os hoffech chi gallaf eich dysgu i ddeall y geiriau. Yna cewch ddarllen y llyfr eich hunain.’

Roedd golwg anesmwyth ar Grymus a Gwyllt. ‘Gad i ni glywed ychydig mwy i ddechrau.’ Trodd Gwyllt y dalennau nes iddo ddod at lun llygoden fawr. ‘Dywed wrthym beth mae’n ei ddweud am

lygod mawr.'

'Mae llygod mawr yn lledaenu afiechyd,' darllenodd Sgolor yn llawn balchder. 'Mae ffermwyr yn aml yn defnyddio gwenwyn i gael gwared ohonynt.'

'Hei, aros funud!' gwgodd Grymus. 'Mae rhai o'n ffrindiau gorau ni'n lygod mawr.'

'Mae'n ddrwg gen i,' meddai Sgolor. 'Ond dyna ddywed y llyfr.'

Roedd tinc annifyr yn llais Grymus nawr. 'Wel, gad i ni glywed beth sydd ganddo i'w ddweud am gwningod felly.'

Yn nerfus, dechreuodd Sgolor ddarllen y dudalen ar gwningod.

'Mae cwningod yn . . . ym . . .' Tawelodd gan lyncu'i boer.

'Ie . . . dos yn dy flaen,' meddai Grymus yn ddiamynedd.

'Oes rhaid i mi?'

'Oes.'

'Mae cwningod yn bla difrifol . . . '

'Pla difrifol!' Dyrnodd Grymus ei goesau ôl ar y ddaear.

'Glywes ti hynna, Gwyllt? Mae'r llyfr hwn yn ein galw ni'n enwau. Felly dywed wrtha i, y twmffat tila gwirion . . .' Gwthiodd ei drwyn yn erbyn un ei frawd gan rythu i fyw ei lygaid. 'Wyt ti'n credu'r llyfr hwn? Wyt ti'n credu ei fod yn dweud y gwir?'

Roedd Sgolor ar fin dweud 'na'. Ond roedd yn gwningen onest o ran natur. 'Dwi . . . Dwi'n . . . credu fod y llyfr yn gwybod mwy na mi,' gwichiodd.

Aeth yr efeilliaid yn gynddeiriog. 'Cydia ynddo!' Cydiodd Grymus a Gwyllt yn eu brawd bach gerfydd ei glustiau. 'Den ni am fynd am dro bach, Twpsyn,' poerodd Grymus wrth ei lusgo allan o'r twll i'r lôn. 'Awn ni am dro i fuarth y fferm ac fe gei di ddweud wrth y llygod mawr beth ddywed dy lyfr amdanyn nhw.'

'Na! Gadewch fi'n rhydd, y bwlis!' Ymdrechodd Sgolor i ddianc. Ond roedd yr efeilliaid yn llawer cryfach nag ef. 'Help! Help!' gwichiodd wrth iddynt ei hebrwng i gyfeiriad y buarth.

'Mae o'n gobeithio y daw rhyw arth neu tsimpansî neu eliffant i'w achub,' meddai Grymus yn wawdlyd. 'Mae o'n hurt bost. Does dim eirth na tsimpansîs nag eliffantod. Dydyn nhw ddim yn bodoli. Mae'r llyfr yn llawn celwydd. A gorau po gyntaf mae'r hurtyn yma'n sylweddoli hynny.'

Erbyn hyn roeddent wedi cyrraedd yr ysgubor. Cadwodd Gwyllt ei afael ar Sgolor tra galwodd Grymus trwy'r drws agored. 'Allan â chi, Lygod. Mae gan ein brawd bach gwirion lyfr sy'n dweud pethau cas amdanoch.'

Yn crynu gan ofn, disgwyliodd Sgolor am sŵn pitran-patran traed y llygod. Beth ddylai ei wneud? Roedd y llygod yn greaduriaid milain, creulon. Byddai'n gas ganddynt gael eu cyhuddo o ledaenu afiechyd. Efallai y dylai gymryd arno fod y llyfr yn anghywir. Ond na, os oedd Sgolor am fod yn gwningen onest byddai'n rhaid iddo ddweud y gwir. Roedd yn caru'r llyfr a chredai bob gair.

'Lygod!' gwaeddodd Grymus eto. 'Ble ydech chi?'

'Gwell i ni fynd i edrych,' penderfynodd pan na ddaeth y llygod mawr i'r golwg.

Y tu mewn, roedd yr ysgubor mor dawel a thywyll fel y gallai Sgolor glywed ei galon yn curo.

'Snichyn! Boldew! Brathwr!' galwodd Grymus ar bob un o'i ffrindiau wrth eu henwau.

Unwaith eto ni chafwyd ateb, ond yna, wrth i lygaid y cwningod ddod i ddygymod â'r tywyllwch, yn sydyn gwelsant pam. Roedd y llygod mawr yno'n ddigon siŵr. Roeddent mewn pentwr ar ganol y llawr. Eu llygaid ar gau. Eu pawennau'n llipa.

'Maen nhw wedi marw!' llefodd Gwyllt.

'O! O!' meddai Grymus yn gwynfannus. 'Snichyn druan! Boldew druan! Yr hen Frathwr druan!'

Bu ennyd o dawelwch llwyr. Yna gollyngodd Grymus ei afael ar glustiau Sgolor gan edrych ar ei frawd bach gyda pharch am y tro cyntaf.

'Maen nhw wedi cael eu gwenwyno,' dywedodd. 'Eu gwenwyno gan y ffermwr. Yn union fel y dywed yn llyfr Sgolor.'

HYD: 6–7 munud

NEGES: Mae gan Gristnogion lyfr sy'n dysgu'r gwirionedd iddynt.

DARLLEN: 2 Timotheus 3: 14–17